# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Hydref 2023

Amser: 14.03 - 16.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13516

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Joel James AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | Wayne Crocker, Mencap Cymru<br>Dot Gallagher, Mencap Cymru<br>Ben Cottam, Federation of Small Businesses (FSB)<br>Trudy Davies, Woosnam & Davies News<br>Steven Mc Gee, Unigolyn<br>Janet Jones, Unigolyn |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Sesiwn dystiolaeth - Panel 1 - P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Steven McGee; Janet Jones; Dot Gallagher, Cadeirydd Mencap Môn; a Wayne Crocker, Cyfarwyddwr Mencap Cymru.

## 3 Sesiwn dystiolaeth - Panel 2 - P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ben Cottam, Ffederasiwn y Busnesau Bach; a Trudy Davies, Woosnam & Davies News, Llanidloes.

## 4 Deisebau newydd

### 4.1 P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr

Datganodd Rhys ab Owen AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n dad i blentyn 3 oed a baban dau fis oed.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y llythyr a ddaeth i law gan Oxfam Cymru. Cytunodd yr Aelodau i dynnu sylw at y materion a godwyd a cheisio rhagor o eglurder gan Lywodraeth Cymru cyn penderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd.

### 4.2 P-06-1363 Achubwch ein Gwasanaeth Tân ac Achub

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghylch y ddeiseb i ofyn am yr amserlen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad a materion eraill a godwyd gan yr Aelodau. Bydd hefyd yn trafod y ddeiseb eto unwaith y daw ymateb Llywodraeth Cymru i law.

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 5.1 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y ddadl ar y cyd a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar y ddeiseb ac adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar blant sydd wedi bod mewn gofal.

Nododd yr Aelodau y bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn parhau i fonitro cynnydd ar y materion ehangach sy’n berthnasol i’r ddeiseb hon, felly cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am ymgysylltu â'r Pwyllgor.

### 5.2 P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndwr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau’r dyfodol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Sir Powys yn gofyn am arwyddion i gyfeirio ymwelwyr at y safle ac arwydd mwy amlwg wrth gyrraedd y safle.

### 5.3 P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i wahodd y deisebydd a Llywodraethwyr Cymru i un o gyfarfodydd y Pwyllgor ym mis Tachwedd i roi tystiolaeth ar y materion penodol y maent yn eu hwynebu a'r datrysiadau y maent am eu cynnig.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod y dystiolaeth - P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.